

## Astudiaeth Achos Prosiect Arddangos

**Teitl y prosiect:** Prynu Beic Trydan ar gyfer Maes y Ffynnon

### Disgrifiad

Mae staff sy'n gweithio yn swyddfa Maes y Ffynnon CNC yn elwa o feic trydan newydd, fel rhan o beilot yn anelu i wella cyfranogiad teithio actif a chynaliadwy o fewn y gweithle.

Wrth i arolwg diweddar i geisio deall patrymau teithio gwaith staff gyrraedd y casgliad bod 8% o'n siwrneau car a fan rhwng 0-10 milltir, bwriad y beic yw lleihau nifer y teithiau byr y mae staff yn eu gwneud mewn ceir pŵl a'u cerbydau eu hunain yn ystod oriau gwaith.

Hir dymor, y nod yw helpu i ostwng ôl-troed carbon CNC a'i staff, yn ogystal â gwneud arbedion tanwydd wrth lleihau defnydd cerbydau pŵl ar gyfer siwrneau byr lle bo modd.

Bydd y beic ar gael i bobl sydd â chyfarfodydd yn lleol neu sydd eisiau gwneud teithiau lleol yn ystod eu diwrnod gwaith. O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd hefyd ar gael i gludo pobl i'r gwaith neu adref.



### Dull

Fel rhan o'i ymrwymiad i leihau ei effaith carbon er mwyn dod i'r afael â newid hinsawdd, mae CNC yn annog i'w staff ddewis dulliau teithio actif a chynaliadwy fel beicio ar gyfer teithiau'n ymwneud â gwaith lle bo modd.

Mae gan swyddfa Maes-y-Ffynnon feic pŵl yn barod, ond, gan ei fod yn aml mewn defnydd ar gyfer monitor Llwybr Arfordir Cymru, aeth y tîm ati i geisio prynu un arall ar gyfer y swyddfa.

Roedd gan Prosiect Carbon Bositif CNC gyllideb o £10,000 ar gyfer cefnogi prosiectau ynni effeithlon a theithio actif bychain o fewn y sefydliad, a galluogodd hyn i'r tîm wneud cais am gyllid.

### CO<sub>2</sub>e wedi'i arbed

Yn 2017, ar ôl cyfrifo ein hallyriadau, darganfuwyd bod oddeutu 8% o'n hallyriadau o ganlyniad i deithio ar gyfer busnes a defnydd tanwydd yn ein cerbydau (fflyd). Felly, nid oes angen dweud fod mwya'n byd o filltiroedd busnes y gallwn deithio'n defnyddio dulliau actif a chynaliadwy, y lleia'n byd fydd ein hallyriadau.

Yn arferol, am bob 10 milltir y bydd aelod staff yn teithio ar y beic yn



Wedi'i leoli ar ben allt serth, mae'n bosib y gall lleoliad Maes y Ffynnon ym Mhenrhosgarnedd fod yn rhwystr i staff sy'n dymuno dewis dull teithio mwy actif. Fodd bynnag, diolch i'w moduron trydan adeiledig, mae angen llawer llai o ymdrech i ddefnyddio beic trydan o'i gymharu â beic arferol – yn enwedig i fyny allt – sy'n eu gwneud yn llawer mwy hygyrch i grŵp ehangach o bobl.

Cynhaliwyd arolwg anffurfiol er mwyn darganfod barn staff tuag at defnyddio beic pŵl trydan: roedd yr ymateb yn gadarnhaol dros ben, gyda'r mwyafrif llethol o'r farn ei fod yn syniad da.

Mae'r beic yn awr ar gael i'w logi ar Cyfarch, system llogi ar-lein CNC ar gyfer cerbydau pŵl.

## Camau nesaf

Bydd manylion ei ddefnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gyda'r wybodaeth a gaiff ei gasglu'n cael ei rannu gyda'n tîm Systemau Rheoli Amgylcheddol a'r grŵp Teithio Actif a Chynaliadwy er mwyn deall sut y caiff ei ddefnyddio, gyda hynny'n cyfrannu tuag at gwell dealltwriaeth o'n harferion teithio actif a chynaliadwy ar draws y sefydliad.

## Canlyniadau

Cynhaliwyd sesiwn arddangos i hyrwyddo'r buddion a ddaw o defnyddio'r beic, a rhoi cyfle i staff rhoi cynnig ar ei ddefnyddio, gyda chymorth gan Evolution Bikes ym Mangor.

Denodd y digwyddiad ddiddordeb gan staff Maes y Ffynnon staff yn ogystal â rhai wedi'u lleoli mewn swyddfeydd CNC eraill ac, o ganlyniad, Mae'r Grŵp Teithio Actif a Chynaliadwy bellach yn ymchwilio ffynhonnellau cyllid er mwyn prynu rhagor o feiciau trydan ar gyfer rhai o'n swyddfeydd eraill.

Roedd y polisi beic pŵl presennol yn datgan y dylid enwebu un aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw feic pŵl, ac felly cytunodd aelod o Grŵp Defnyddwyr Beic Bangor i fabwysiadu'r rôl hwn, gyda chefnogaeth aelodau eraill y grŵp.

Serch hynny, wrth fynd ati i drafod pwy ddylai cymryd cyfrifoldeb am y beic hir dymor er mwyn sicrhau y caiff ei wasanaethu'n rheolaidd ayyb., ysgogwyd trafodaeth yn ymwneud â a oedd y polisi presennol yn addas ar gyfer beic trydan, ac a ddylai rhoi'r un statws i feiciau pŵl â'r hyn a roddir i gerbydau pŵl eraill a chael eu mabwysiadu'n swyddogol gan Fflyd, yn hytrach na dibynnu ar wirfoddolwyr. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau ar hyn o bryd.

hytrach na mewn car maint bychan neu ganolig petrol, bydd oddeutu 3kg o CO<sub>2</sub>e yn cael ei arbed.

Cafodd hyn ei gyfrifo'n defnyddio ffactorau trosi'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol (BEIS) 2018.

## £2,779 cyfanswm cost y prosiect

SCOTT SUB Active eRide - £2,049  
Storfa feic Asgard - £580  
Gosod a dosbarthu'r locer - £150  
Helmet Bontrager Solstice - £49.99\*  
Clo - Kryptolok Mini U-Lock - £44.99\*  
Paniers Ortlieb (Pâr 25L) - £75\*  
High Viz - £0  
\*Roedd prynu'r beic yn cynnwys credyd o 10% gyda'r siop (£205), a aeth tuag at costau offer.

## Arloesi

Er i feic trydan hefyd gael ei brynu ar gyfer swyddfa CNC yn Llandarsi, hwn yw'r cyntaf i gael ei beilota'n benodol i helpu gostwng ein hallyriadau carbon.

## Cydweithio gydag eraill

Grŵp Defnyddwyr Beic Bangor  
Tîm Llwybr Arfordir Cymru  
Tîm Carbon Bositif  
Tîm Cyfleusterau  
Y Fflÿd  
Tîm Systemau Rheoli Amgylcheddol

## Buddiannau ehangach

I gydfynd â'r nodau Llesiant "Cymru llewyrchus & Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang", yn yr hir dymor dylem weld rhywfaint o arbedion ariannol a gostyngiad mewn effaith ein sefydliad ar yr amgylchedd.

Mae'r prosiect wedi annog a galluogi staff i gynyddu faint o ymarfer corff yr ydynt yn ei wneud ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella hygyrchedd teithio actif a chynaliadwy, gyda'r nod o hybu eu iechyd a lles, yn ogystal â gostwng ein hallyriadau sy'n gysylltiedig â theithio.

Gobeithir y bydd yn mynd yn ei flaen i annog rhagor o swyddfeydd CNC, a sefydliadau eraill, i fuddsoddi mewn technolegau gwyrdd wrth iddynt ddatblygu.

## Dysgu

Roedd y tîm yn awyddus i sichrau y byddai prynu'r beic yn fuddsoddiad bositif ar gyfer y sefydliad a'i staff. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen cymryd camau fel ei fod yn cael ei ofalu amdano yn yr hir dymor.

Wrth wneud hynny, un o'r prif heriau a wynebwyd gan y tîm yn ystod y broses oedd penodi rhywun i gymryd cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r beic yn yr hir dymor. Wnaethom liniaru hyn wrth ganiatau i fwy nag un person fod yn gyfrifol am y beic, gyda chefnogaeth y Grŵp Defnyddiwr Beic Bangor ehangach. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio y bydd modd i'r beic pŵl cael ei fabwysiadu a'i gynnal fel rhan o bŵl cerbydau CNC.

Daw elfen bellach o'n dysgu o ganlyniad i ni fonitro'n barhaus sut fydd y beic yn cael ei ddefnyddio.

Mae'r broses hefyd wedi rhoi'r cyfle i ni adolygu ein polisi beic pŵl ar ôl cymryd amser i ystyried ai'r drefn bresennol yw'r un mwyaf addas.

Er i ni brynu ffrâm 'fychan', roedd dimensiynau'r beic trydan yn fwy na beic gyffredin. Yn wreiddiol, roeddem wedi archebu sied feic maint safonol, ond ar ôl ei fesur yn erbyn y rhai yr oedd gennym ar y safle yn barod, daeth yn amlwg na fyddai'n addas a bu raid i ni ganslo'n harcheb a'i gyfnewid am sied fwy. Mae'n bwysig, felly, i fod yn hollol ymwybodol o ddimensiynau'r beic cyn archebu rhywle i'w storio.

Prynwyd y ffrâm lleiaf ar gael ar gyfer y model, ac mae modd ei addasu ar gyfer amrywiaeth o feicwyr o wahanol faint. Fodd bynnag, mae rhai defnyddwyr wedi nodi ei fod yn rhy fawr ac yn feichus. Wrth ystyried pryniannau beiciau pŵl trydan yn y dyfodol, byddai'n ddoeth ymchwilio i weld a oes modelau llai, ysgafnach ar gael, yn enwedig y rhai gyda fframiau sy'n benodol i fenywod.

Dangosodd ymchwil i'r farchnad ar gyfer prynu bod cost pob un heblaw am y modelau rhataf yn fwy na'r trothwy o £1000 sydd ar gael ar hyn o bryd trwy ddarparwr Beicio i'r Gwaith CNC. Mae hyn yn rhwystr mawr i aelodau staff sy'n prynu eu e-feiciau eu hunain nad ydynt yn gallu fforddio'r gost gyfan ymlaen llaw. Dylid gofyn am newidiadau i reolau'r cynllun presennol neu ddod o hyd i gynllun amgen i ganiatáu prynu beiciau trydan.



## Tystiolaeth a gwybodaeth

Wrth i'r prosiect gael ei gyflawni, roedd arolwg yn cael ei gynnal yn fewnol fel rhan o ymrwymiad y sefydliad tuag at teithio actif a chynaliadwy a bod yn sefydliad Carbon Bositif. Nod yr arolwg oedd darganfod rhagor o wybodaeth yn ymwneud â sut y mae staff yn teithio i'r gwaith ac adref ac yn teithio at bwrpas gwaith yn ystod y diwrnod.

Amlygwyd y canlyniadau, ymysg pethau eraill, bod 8% o siwrneau gwaith yn bellter byr (0-10milltir), gyda char neu fan yn gyson y dull teithio fwyaf poblogaidd at bwrpas gwaith a chymudo dydd-i-ddydd.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cynnwys gwella'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal âg adnabod a datrys unrhyw fylchau mewn cyfleusterau. Bydd hefyd yn llywio penderfyniadau o ran lle gallem fuddsoddi yn y dyfodol.

Pellter arferol siwrneau gwaith

